Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Joanna Pitman**

**Caerffili**



Final un… report

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 7 Ionawr 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

Final unpublished report

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac maent wedi meithrin cydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac yn cyfleu eu hanghenion mewn ffordd hyderus.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n cefnogi'r plant yn unigol mewn modd cynnes a chadarnhaol iawn. Mae'r gwarchodwr plant yn garedig ac yn gyfeillgar. Mae'n cynllunio amrywiaeth o weithgareddau yn unol â diddordebau'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn gofalu am y plant mewn amgylchedd sy'n ddiogel. Mae'n creu amgylchedd croesawgar lle gall y plant chwarae a dysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal a chadw'r amgylchedd i safon uchel. Mae'n darparu adnoddau sy'n hyrwyddo pob maes o ran dysgu a datblygu'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei darpariaeth yn dda ac yn deall ei chyfrifoldebau rheoliadol. Mae'r dogfennau'n glir, wedi'u trefnu'n dda, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am ddatblygiad eu plant.

Final unpublished report

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac yn gallu ymlacio dan ofal y gwarchodwr plant. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn teimlo'n gyfforddus wrth fynegi eu hunain. Mae'r plant yn sgwrsio'n hapus â'r gwarchodwr plant ac yn gwybod ei bod hi'n gwerthfawrogi eu syniadau a'u barn. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Er enghraifft, maent yn cael rhyddid i chwarae ac yn dewis pa deganau yr hoffent chwarae â nhw a pha weithgareddau yr hoffent eu gwneud.

Mae'r plant wedi meithrin cydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd gwarchod plant. Maent wedi setlo ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, roeddent yn fwy na pharod i ddod atom er mwyn dangos eu hoff deganau. Mae'r plant yn hyderus wrth fynd at y gwarchodwr plant ac yn cael anogaeth gadarnhaol a mwythau pan fydd angen hynny.

Mae'r plant yn dechrau gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd, yn cyd-chwarae'n hapus, ac yn dysgu sut i rannu adnoddau. Mae'r plant yn cael eu canmol yn aml am eu hymdrechion a'u cyflawniadau, sy'n hyrwyddo eu hunan-barch ac yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r plant hŷn yn ystyriol iawn o'r plant iau ac yn dangos gofal tuag atynt. Er enghraifft, aeth plentyn hŷn at un o'r plant iau i roi mwythau i'w ben gan ddangos gofal a chynhesrwydd amlwg tuag ato. Aeth plentyn arall yn garedig i estyn potel ddŵr ei ffrind a chynnig diod iddo.

Mae'r plant yn canolbwyntio wrth chwarae ac yn hyderus wrth ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Gwelsom y plant yn magu'r doliau wrth iddynt eu bwydo â photel ffug, a'r plant iau yn chwerthin yn hapus wrth iddynt chwarae 'pî-pô' â'r gwarchodwr plant. Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Er enghraifft, roedd un plentyn wrth ei fodd yn paru siapiau â'i gilydd wrth chwarae â thegan trefnu. Roedd ei ymdeimlad o gyflawniad yn amlwg wrth iddo ddatgan yn llawn balchder, '*I did it*,' cyn ailadrodd y gweithgaredd unwaith eto. Mae'r plant yn mwynhau cyfleoedd i chwarae am gyfnodau hir heb unrhyw darfu arnynt, sy'n eu galluogi i ymarfer sgiliau a meithrin hyder yn eu galluoedd.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn llwyddiannus, gan eu galluogi i wneud pethau drostyn nhw eu hunain. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r cyfleusterau toiled ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol gyda rhywfaint o oruchwyliaeth a chyfarwyddyd gan y gwarchodwr plant. Maent yn hongian eu cotiau ac yn gosod eu hesgidiau ar y rhesel esgidiau yn y cyntedd. Mae'r plant yn gallu cael gafael ar adnoddau yn hawdd neu'n gofyn yn hyderus i'r gwarchodwr plant am help pan na fyddant yn gallu dod o hyd i rywbeth.

Final unpublished report

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth drylwyr o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith. Mae'n hyderus wrth adnabod arwyddion a symptomau camdriniaeth ac yn gwybod pa weithdrefn i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu am blentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion manwl o feddyginiaethau sy'n cael eu rhoi ac o ddamweiniau a digwyddiadau ac yn rhannu'r cofnodion hyn â'r rhieni. Mae'n cadw cofnod cywir o bresenoldeb y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu trefniadau ac arferion glanhau effeithiol er mwyn helpu i atal germau rhag lledaenu. Er enghraifft, mae'n glanhau'r arwynebau cyn paratoi bwyd a chyn amseroedd bwyta/byrbryd, ac yn rhoi arferion golchi dwylo da ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi'r plant i gael deiet sy'n iach drwy roi prydau a byrbrydau maethlon iddynt. Mae'n gweithio tuag at wobr cyn-ysgol iach sy'n hyrwyddo maeth, iechyd y geg, gweithgarwch corfforol, a chwarae egnïol. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym sut mae'n mynd ati i reoli dewisiadau deietegol ac alergeddau'r plant. Fodd bynnag, nid oes polisi ar waith sy'n adlewyrchu hyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn garedig ac yn ofalgar, ac yn rhoi gofal sy'n gynnes ac yn fagwrus. Mae wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol sydd wedi gwella ei dealltwriaeth o ddatblygiad ac ymddygiad plant. Er enghraifft, hyfforddiant ar hyrwyddo rhyngweithio o ansawdd â'r plant, ac ar ymlyniad a gofal sy'n ystyriol o drawma. Mae'n ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant ac yn parchu'r hyn y maent yn ei ddweud. Mae ganddi bolisi rheoli ymddygiad buddiol ar waith sy'n hyrwyddo'r defnydd o strategaethau cadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn fedrus wrth roi cymorth i'r plant ryngweithio'n briodol â'i gilydd. Gwnaethom ei chlywed yn annog ac yn canmol y plant yn aml am eu hymdrechion a'u rhyngweithio cadarnhaol, gan gynnig esboniadau clir i atgyfnerthu dealltwriaeth y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau sy'n helpu'r plant i ddysgu a meithrin eu sgiliau. Mae'r gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio yn unol ag anghenion a diddordebau unigol y plant, sy'n eu gwneud nhw'n ystyrlon i'r plant. Er enghraifft, er mwyn lleddfu pryder ynghylch mynd at y deintydd, roedd y gwarchodwr plant yn annog y plant i chwarae â'r adnoddau chwarae rôl deintydd. Cawsant lawer o hwyl yn brwsio model enfawr o ddannedd gan ddefnyddio brwshys dannedd go iawn, ac yn ymarfer gofyn i'w gilydd agor eu cegau lled y pen er mwyn dangos eu dannedd i'w gilydd. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant hŷn i rannu eu syniadau ar gyfer gweithgareddau a gwibdeithiau, ac yn cadw cofnodion ohonynt yn ei dyddiadur dyddiol. Roedd y drafodaeth â'r gwarchodwr plant yn dangos ei bod yn adnabod y plant yn ei gofal yn dda iawn. Fodd bynnag, nid yw'n cadw cofnod o'i harsylwadau, ac nid yw'n cofnodi cynnydd a datblygiad unigol y plant. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod wedi cyflwyno system ddigidol newydd yn ddiweddar ar gyfer cadw cofnodion, a'i bod yn bwriadu defnyddio'r system

Final unpublished report

honno i gadw cofnod o ddatblygiad y plant. Mae'r gwarchodwr plant wrthi'n ymgymryd â hyfforddiant 'Ffordd i Ddwyieithrwydd ('*Road to Bilingualism*') er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ei lleoliad. Gwnaethom ei chlywed yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg achlysurol â'r plant.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân a diogel i'r plant. Mae'n cadw'r drws ffrynt ar glo pan fo'r plant yn bresennol, ac yn sicrhau bod ymwelwyr yn dangos prawf adnabod ac yn mewngofnodi drwy ddefnyddio cofnod ymwelwyr digidol. Mae ardal yr ardd yn ddiogel ac wedi'i hamgylchynu gan ffens ddiogel. Mae'n monitro ac yn ymateb i unrhyw beryglon posibl mewn modd amserol. Mae ystod bwrpasol o asesiadau risg ar waith ar gyfer pob rhan o'r cartref, ac ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a gwibdeithiau. Mae'r asesiadau risg yn nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg, y mesurau sydd ar waith i leihau'r risgiau hyn, ac yn dangos eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant ac yn eu cofnodi'n briodol fel rhan o'i chofnod ymarferion tân. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar y cartref a'r car, ac mae ganddi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar fel bod y plan yn teimlo'n gyfforddus yn y cartref. Mae'n darparu digonedd o deganau, gemau a chyfarpar i'r plant ac yn eu trefnu'n dda fel bod modd i'r plant gael gafael arnynt yn hawdd. Mae cynllun yr ystafell yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, ac mae wedi'i threfnu'n ddeniadol er mwyn i'r plant allu mynd ati i archwilio'n rhydd ac i wneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw. Mae'r ardaloedd chwarae yn olau ac yn llawn lliw, ac mae pob darn o ddodrefn yn briodol ac mewn cyflwr da. Mae'r ardd yn hyfryd ac yn ddiogel, ac yn cynnwys digon o adnoddau. Mae wedi'i rhannu'n ardaloedd gwahanol sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a dysgu gwerthfawr i'r plant fwynhau chwarae yn yr awyr agored. Er enghraifft, ardal dan gysgod er mwyn gallu chwarae ym mhob tywydd, cegin fwd, ardal batio ar gyfer beiciau a theganau reidio, ac ardal blannu.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cyfarpar yn addas ar gyfer ystod oedran y plant. Gall y plant eistedd yn gyfforddus, gan fod dodrefn o ansawdd uchel o faint sy'n addas i blant ar gael iddynt wrth ymgymryd â gweithgareddau ben bwrdd. Maent yn bwyta eu prif brydau wrth y bwrdd bwyta mawr, ac mae'r plant iau yn eistedd mewn seddau codi priodol i'w galluogi i deimlo eu bod yn rhan o'r profiad bwyta. Mae'r daliwr tywelion papur lefel isel a'r stôl gamu yn yr ystafell ymolchi yn hyrwyddo annibyniaeth y plant wrth iddynt ddefnyddio'r cyfleusterau. Yn y cyntedd, mae'r pegiau cotiau lefel isel, y rhesel esgidiau a'r rheolau tŷ sy'n cael eu dangos oll ar uchder sy'n addas i'r plant er mwyn helpu i roi ymdeimlad o berthyn iddynt wrth ddod i mewn i'r lleoliad. Mae'r gwarchodwr plant yn

Final unpublished report

sicrhau bod yr holl deganau a'r adnoddau mewn cyflwr da ac yn lân er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Mae cymysgedd o adnoddau pren a phlastig, ond prin oedd yr adnoddau naturiol a bywyd go iawn i wella profiadau chwarae'r plant.

Final unpublished report

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da. Mae ganddi ddatganiad o ddiben sy'n llawn gwybodaeth ac sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y gwasanaeth y mae'n ei gynnig. Er hyn, mae angen ei ddiweddaru i adlewyrchu'r ffaith eu bod yn defnyddio'r ardd eto, ac i nodi'r cyfeiriad cywir ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith sy'n helpu'r lleoliad i redeg yn ddidrafferth. Mae'r gwarchodwr plant yn aelod o sefydliad cymorth gwarchod plant. Mae'r sefydliad hwn yn ei helpu i sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf am ei busnes, ac mae'n defnyddio enghreifftiau o'r ddogfennaeth a ddarperir gan y sefydliad. Mae gan y gwarchodwr plant gontractau â'r rhieni, ac mae ganddi weithdrefn addas ar gyfer cael caniatâd ganddynt ar gyfer gweithgareddau fel rhoi eli haul ar y plant, tynnu ffotograffau, a darparu triniaeth feddygol frys.

Mae gan y gwarchodwr plant system ddefnyddiol ar waith i adolygu ei lleoliad. Mae'n cwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu adborth gan y rhieni, gan amlinellu cryfderau'r lleoliad ac unrhyw feysydd i'w datblygu. Mae'n myfyrio ar ei hymarfer ac yn dangos ymrwymiad parhaus i wneud gwelliannau i'w lleoliad. Er enghraifft, mae'n bwriadu gwneud cais am grant er mwyn datblygu'r amgylchedd dysgu awyr agored ymhellach. Mae polisi cwynion ar waith, ond nid yw'n cynnwys gwybodaeth am sut y gall y plant hŷn wneud cwyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ddilys ac yn gyfredol ar ei chyfer hi ei hun, y cynorthwyydd, ac aelodau'r cartref. Mae'n sicrhau bod ffeil staff ar waith ar gyfer y cynorthwyydd gwarchod plant, sy'n dangos bod gwiriadau recriwtio cadarn ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn blaenoriaethu ei datblygiad proffesiynol parhaus ac wedi ymgymryd ag ystod eang o hyfforddiant ychwanegol er mwyn hyrwyddo'r canlyniadau gorau i'r plant. Er enghraifft, cwrs Babi Actif a chwrs Plentyn Bach Actif, cwrs lleferydd ac iaith, cwrs rhannau bach, a chwrs ar y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Mae hefyd wedi cwblhau cynllun sicrhau ansawdd yr awdurdod lleol sydd wedi ei hannog i ddatblygu a chynnal safonau dysgu a datblygu uchelgeisiol. Mae hyn yn galluogi'r rhieni i wybod y gallant fod yn hyderus eu bod yn dewis darpariaeth sydd o ansawdd uchel.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni er mwyn sicrhau bod y plant yn ei gofal yn cael y cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am brofiadau a datblygiad eu plant drwy roi adborth llafar rheolaidd iddynt pan fyddant yn dod i gasglu eu plant, yn ogystal ag adborth digidol pellach drwy ap gofal plant.

Final unpublished report

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Final Unpublished report

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 30 | Nid oedd y gwarchodwr plant wedi cadw cofnod o bob ymwelydd a ddaeth i'r cartref pan oedd y plant ar y safle. | Cyflawnwyd |
| | Nid oedd y Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r ymarfer presennol - y defnydd ad hoc o wirfoddolwr. | Cyflawnwyd |
| | Roedd angen adnewyddu gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer y mab, ac nid oedd gwiriad DBS wedi cael ei gynnal ar gyfer y gwirfoddolwr. | Cyflawnwyd |

Final unpublished report

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 5 - Cofnodion | Cadw cofnodion ysgrifenedig o gynnydd a datblygiad y plant |
| Safon 1 - Gwybodaeth | Diweddaru'r datganiad o ddiben a sicrhau bod gan AGC gopi o'r fersiwn ddiweddaraf |
| Safon 19 - Cwynion | Diweddaru'r polisi cwynion i gynnwys sut y gall plant hŷn wneud cwyn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |

| |
|---|
| Llunio polisi ar gyfer rheoli gofynion deietegol ac alergeddau'r plant. |
| Cyflwyno mwy o adnoddau naturiol a bywyd go iawn er mwyn gwella profiadau chwarae'r plant ymhellach. |

Final unpublished report

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

Final unpublished report

**Dyddiad Cyhoeddi** 25/04/2024